Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Tir Einon**

**Llwynhendy**
**Llanelli**
**SA14 9DF**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

2/8/2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***

*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â Thir Einon

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth cartref gofal<br>Oedolion heb ofal nyrsio |
| Darparwr cofrestredig | Gwasanaethau Oedolion a Phlant Cyngor Sir Caerfyrddin |
| Lleoedd cofrestredig | 8 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy iaith |
| Arolygiad blaenorol gan Arolygiaeth Gofal Cymru | 16 a 17/1/2019 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Yn gweithio tuag ato. Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg ac yn bwriadu dod yn lleoliad dwyieithog neu'n arddangos ymdrech sylweddol i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a'i diwylliant. |

## Crynodeb

Mae'r bobl sy'n aros yng ngwasanaeth seibiant Tir Einon yn elwa ar y gofal a'r cymorth a gânt gan y tîm staff gwybodus a gofalgar. Mae hybu iechyd a llesiant unigol y bobl yn sail i nod y gwasanaeth. Mae'r cynlluniau gofal a chymorth yn fanwl ac yn darparu ymdeimlad da o'r unigolyn, ei anghenion cymhleth a'r ffordd orau i'w gefnogi. Mae gweithwyr proffesiynol allanol yn cymryd rhan weithredol yn y cymorth y mae'r bobl yn ei dderbyn.

Mae rheolwr ymroddedig a brwdfrydig yn arwain ethos y gwasanaeth. Mae'r staff yn parchu ac yn gwerthfawrogi'r rheolwr sy'n cael ei gefnogi'n dda gan yr unigolyn cyfrifol. Mae ystod o brosesau monitro ac archwilio ar waith, ac mae gan yr unigolyn cyfrifol goruchwyliaeth dda o'r gwasanaeth.

## Llesiant

Mae dewisiadau a safbwyntiau'r bobl yn cael eu cydnabod a gwrandewir arnynt. Mae’r cofnodion gofal yn rhoi ymdeimlad da o'r unigolyn ac yn adlewyrchu ei anghenion a'i hoffterau unigol. Mae'r bobl yn cymryd rhan orau y gallant, gan ystyried eu hanghenion cymhleth, mewn penderfyniadau o ddydd i ddydd sy'n effeithio arnynt gan gynnwys prydau bwyd, gweithgareddau a'u gofal. Ceisir eu barn fel rhan o ymweliadau Rheoliad 73 a gynhelir gan yr unigolyn cyfrifol. Darperir gofal a chymorth yn unol ag anghenion a dymuniadau penodol y bobl a chaiff hwn ei addasu pan fo angen i ddiwallu eu hanghenion yn well. Mae rheolwr ymroddedig a brwdfrydig yn gosod ethos y gwasanaeth, sy'n gwerthfawrogi ei staff ac yn ymdrechu i gael y canlyniadau gorau i'r bobl sy'n aros yn Nhir Einon.

Mae’r bobl yn cael eu hamddiffyn rhag niwed a chamdriniaeth. Mae'r staff yn siarad yn ofalgar am y bobl sy'n aros yn y gwasanaeth ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o'r unigolion, eu hanghenion, a sut mae diwallu’r anghenion hyn. Mae'r gweithwyr gofal yn rhyngweithio â’r bobl ac yn eu cynorthwyo mewn ffordd ystyriol a gofalgar. Mae mesurau rheoli heintiau priodol ar waith ac mae’r staff yn deall yn glir beth yw eu rôl a'u cyfrifoldebau o ran sut i reoli ac atal heintiau. Mae mesurau recriwtio cadarn yn sicrhau bod gan y staff sy'n gweithio yn y cartref y sgiliau ac ymagwedd gywir tuag at ofal a chymorth. Mae'r gwasanaeth yn cysylltu’n weithredol â gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol ac yn gweithio gyda nhw ochr yn ochr i sicrhau bod y bobl yn cadw mor iach â phosib.

## Gofal a Chymorth

Mae gan y staff ddealltwriaeth dda iawn o anghenion y rheini y maent yn eu cefnogi. Mae'r gweithwyr gofal yn siarad yn frwdfrydig am ofalu am y bobl sy'n aros yn y gwasanaeth a'u cefnogi. Dywedodd gweithwyr gofal wrthym *"Dwi'n hoffi gofal seibiant – mae bob amser yn wahanol, yr unigolion sy'n dod gyntaf", "Dwi'n mwynhau'r rôl yn fawr. Mae ganddi lawer o heriau gwahanol, ond dwi'n dwli ar y bobl rydyn ni'n gofalu amdanyn nhw".* Mae'r staff yn cefnogi'r bobl yn unol â'u hanghenion unigol ac yn sensitif i unrhyw newidiadau y gall y person fod yn eu mynegi neu'n eu harddangos. Drwy gydol yr ymweliad arolygu, roedd y staff yn rhyngweithio'n gadarnhaol ac yn ofalgar â'r bobl gan ddefnyddio amrywiaeth o dechnegau cyfathrebu.

Mae lefelau digonol o staff ar waith i ddiwallu anghenion gofal a chymorth y bobl sy'n aros yn y gwasanaeth. Dywedodd y staff gofal wrthym fod ganddynt ddigon o amser i gefnogi'r bobl yn briodol. Mae'r staff yn ymateb i ymholiadau'r bobl mewn da bryd, ac mae'r rhyngweithio'n gyfeillgar, yn barchus ac yn hamddenol. O ystyried anghenion cymhleth y bobl, mae'r staff yn cefnogi ei gilydd yn ystod eu shifftiau i sicrhau bod pob un ohonynt yn gallu rhoi o'u gorau i'r person y mae'n ei gefnogi.

Mae gan y staff gofal fynediad at gynlluniau gofal sy'n darparu manylion da iawn am y cymorth sydd ei angen ar y bobl i aros yn iach ac am eu hanghenion unigol. Mae'r cynlluniau'n rhoi ymdeimlad gwirioneddol o'r unigolyn ac yn cynnwys y person lle bo'n bosibl, perthnasau a thimau cymunedol yn eu datblygiad a'u hadolygiadau. Mae gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol yn ymwneud â'r bobl ac mae hyn wedi cael ei nodi'n dda yn eu cofnodion gofal. Mae asesiadau risg cynhwysfawr ar waith, sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd. Mae gan y staff gofal ddealltwriaeth drylwyr o'r bobl y maent yn eu cefnogi, a'r anghenion cymhleth y maent yn byw gyda nhw. Ceir gweithdrefnau diogel ar gyfer storio, rhoi a gwaredu meddyginiaeth.

Mae'r gwasanaeth yn hyrwyddo arferion hylendid i leihau'r risgiau o ran heintiau. Mae'r staff yn gwisgo cyfarpar diogelu personol priodol ac yn cydymffurfio â chanllawiau cyfredol Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith i gefnogi arferion da. Mae'r rheolwr a'r staff yn glir ynghylch y rhain a'u cyfrifoldebau o ran amddiffyn y bobl rhag heintiau. Dywedodd un gweithiwr gofal wrthym *"Mae [y rheolwr] yn wych! Mae hi'n gweithio'n galed iawn ac mae'n glir iawn o ran beth sydd angen i ni ei wneud i'n hamddiffyn ni i gyd rhag COVID-19".*

## Yr Amgylchedd

Mae trefniadau ar waith i leihau'r risg i iechyd a diogelwch pobl. Mae gwaith profi a chynnal a chadw cyfarpar diffodd tân yn cael ei wneud o fewn yr amserlenni gofynnol. Mae'r Cynlluniau Personol Gadael mewn Argyfwng wedi cael eu llunio ar gyfer pob unigolyn ac maent ar gael yn rhwydd mewn argyfwng. Mae larymau brys yn hygyrch ac mae ganddynt nodweddion lleihau risg priodol.

Mae sylweddau sy'n beryglus i iechyd yn cael eu storio'n ddiogel ac mae ardaloedd cymunol ac ystafelloedd gwely personol y bobl yn glir a heb beryglon. Mae mesurau atal a rheoli heintiau ar waith yn unol â chanllawiau cyfredol Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae gweithdrefnau priodol ar waith ar gyfer ymwelwyr. Mae'r gwasanaeth yn lân, wedi'i gynnal a'i gadw'n dda heb unrhyw arogleuon drwg.

Mae'r amgylchedd yn cefnogi'r bobl i gyflawni eu canlyniadau personol. Cyn pob derbyniad, cwblheir taflen wybodaeth paratoi ar gyfer gofal seibiant. Mae hwn yn rhoi manylion ynghylch sut mae angen paratoi'r ystafelloedd gan gynnwys: yr ystafell wely, y lolfa, yr ystafell ymolchi a'r mannau cymunol. Mae'r wybodaeth hefyd yn cynnwys unrhyw eitemau sydd eu hangen ar gyfer gweithgaredd penodol e.e., iPad, gemau, celf a chrefft, a ph'un a oes unrhyw ofynion arbennig eraill ar gyfer y person. Mae dodrefn a charpedi, llenni a chlustogau yn ystafelloedd y bobl i'w diogelu rhag anafiadau. Mae'r gerddi diogel yn groesawgar ac yn cynnig y cyfle i'r bobl eu defnyddio er mwynhad eu hunain ac i ymlacio. Mae offer symud a thrin gan gynnwys tracio nenfwd ar gael yn hawdd i gefnogi'r bobl ac mae'r rhain yn cael eu cynnal a chadw o fewn yr amserlenni gofynnol.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae trefniadau llywodraethu trwyadl ar waith. Mae'r unigolyn cyfrifol wedi cynnal ymweliadau Rheoliad 73 yn ystod cyfnod y pandemig. Mae AGC wedi cael copïau o'r adroddiadau, sy'n cadarnhau ei bod yn siarad â'r bobl a'r staff fel rhan o'i hymweliadau â'r gwasanaeth. Cadarnhaodd y staff hyn i ni. Mae ystod o offer monitro a chynhelir ystod o archwiliadau gan y rheolwr a'r uwch-reolwyr. Mae'r camau sydd eu hangen yn sgil yr archwiliadau hyn yn cael eu gweithredu a'u hadolygu yn rheolaidd. Mae'r rheolwr yn gwerthfawrogi'r unigolyn cyfrifol ac yn teimlo ei bod yn cael cefnogaeth dda ganddi.

Mae'r staff yn wybodus, yn gymwys i gefnogi'r bobl sy'n aros yn y gwasanaeth ac yn cael eu gwerthfawrogi. Trwy drafodaethau ac arsylwadau, mae'n amlwg bod gan y staff ddealltwriaeth dda o'r bobl y maent yn eu cefnogi ac anghenion penodol pob unigolyn. Mae cofnodion hyfforddi a sefydlu yn dangos bod y staff yn cael cyfnod sefydlu cadarn ac ystod o gyfleoedd hyfforddi i ddatblygu eu gwybodaeth a'u harfer.

Dywedodd gweithwyr gofal wrthym eu bod yn cael eu cefnogi'n dda, yn enwedig o ystyried anghenion cymhleth y bobl sy'n aros yn y gwasanaeth. Fe ddywedon nhw wrthym "*mae'r rheolwr yn hyfryd – mae pethau wedi newid er gwell ers iddi ddechrau", "mae hi'n [y rheolwr] dda iawn, ac yn gwrando arnon ni. Mae hi'n ein cefnogi ni 100%"* a "*rydyn ni'n bendant yn dîm gwych. Staff gwych, mae pawb yma i helpu ei gilydd".* Gwnaethom ymuno â'r cyfarfod diwedd shifft lle gall staff fyfyrio ar eu shifft, rhannu'r hyn a aeth yn dda neu ddim cystal a thrafod y bobl sy'n aros yn y gwasanaeth. Mae'r rheolwr wedi gosod nifer o fyrddau sy'n arddangos gwybodaeth i ysbrydoli, i gefnogi a chydnabod ei thîm o staff gan gynnwys proffil staff un dudalen i roi gwybodaeth i'w cyd-weithwyr amdanynt eu hunain, yr hyn sy'n gwneud diwrnod yn dda neu ddiwrnod yn wael iddynt a diben y tîm.

Mae'r cofnodion staff yn dangos eu bod yn derbyn goruchwyliaeth; fodd bynnag, nid yw'r rhain bob amser yn cael eu cyflawni o fewn yr amserlenni gofynnol. Trafodwyd hyn â'r rheolwr ar adeg yr arolygiad, a rhoddwyd sicrwydd yr eir i'r afael â'r diffyg hwn. Mae'r staff yn derbyn arfarniad blynyddol. Mae cofnodion recriwtio'n cynnwys yr holl wybodaeth a gwiriadau angenrheidiol.

Mae yna bolisïau a gweithdrefnau cyfredol ar waith sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd i gynorthwyo staff. Mae'r rheolwr yn anfon hysbysiadau priodol ar-lein i AGC. Mae'r Datganiad o Ddiben yn adlewyrchu'n gywir y gwasanaeth a ddarperir yn Nhir Einon.

| Crynodeb o'r diffyg cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn a chafodd ei gyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan nodir canlyniadau gwael ar gyfer y bobl, a/neu risg i lesiant y bobl, drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i’r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i’r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae’n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio’r mater i Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o’r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o’r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

**Dyddiad cyhoeddi** 27/09/2022